Swyddog Maes Conwy
Disgrifiad Swydd

Teitl: Swyddog Maes Conwy

Telerau: Cytundeb ar gyfer 18.75 awr yr wythnos, sef 50% o swydd amser llawn. Mae'r swydd yn hon yn golygu **gweithio ar y cyd** â swyddog rhan amser arall o fewn yr un ardal (*job-share*).

Cytundebir hyd at ddiwedd Mawrth 2012 yn y man cyntaf. Mae cytundebau dilynol yn amodol ar berfformiad yr unigolyn a pharhad cefnogaeth ariannol Llywodraeth Cynulliad Cymru. (Mae'r cytundeb prosiect presennol yn cael ei adnewyddu yn Ebrill 2012 tan Mawrth 2015).

Telir costau teithio ac unrhyw dreuliau gweinyddol rhesymol eraill a ddaw o gyflawni dyletswyddau'r cytundeb. Darperir cynllun pensiwn budd-ddeiliaid.

Cyflog: Ar raddfa o **£17,940 - £21,857** p.a. pro rata yn ôl profiad a chymhwyster.

Lleoliad: Bydd y Swyddog yn gweithio yn ardal awdurdod lleol Conwy gan gwmpasu Dyffryn Conwy a'r Glannau

Disgwylir mai o'i g/cartref bydd y swyddog yn gweithio yn bennaf ond ceir cefnogaeth weinyddol i'r swydd o'n swyddfa yn Llanelwy pan fo angen.

Atebol i: Prif Weithredwr Iaith Cyf. trwy'r Cydlynydd Cenedlaethol a'r Cydlynydd Rhanbarth.

Amcan y cytundeb:

Gweithredu prosiect Twf yn lleol yn unol ag arweiniad y Cydlynydd Rhanbarth a'r Cydlynydd Cenedlaethol.

Dyddiad cau: 10.00a.m., dydd Gwener, 3 Chwefror 2012.

Dyddiad cyfweliad: Dydd Mercher, 8 Chwefror 2012.

Cefndir y Prosiect

Prosiect cenedlaethol i annog rhieni i siarad Cymraeg gyda'u plant adref ar yr aelwyd yw Twf. Ariannir y prosiect gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac mae yn un o flaenoriaethau'r Cynulliad Cenedlaethol o ran amcanion *Iaith Pawb* ac awydd y Cynulliad i greu Cymru ddwyieithog. Mae'r hyn a elwir yn 'trosglwyddiad iaith o fewn y teulu' yn elfen ganolog o hynny.

Prif nod Twf yw ceisio cyrraedd at rieni beichiog neu rieni a chanddynt fabi hyd at 6 mis oed, drwy gyfrwng bydwragedd, ymwelwyr iechyd, unedau scan a mamolaeth a'r amrywiol glinigau. Targed pennaf Twf yw teuluoedd cymysg eu hiaith ond mae'r neges ganolog, *Cymraeg o'r Crud: 2 languages from Day 1*, yn berthnasol i bob teulu.

Mae nifer o ddeunyddiau ar gael i'r Swyddog i drosglwyddo'r neges are ffurf pamffledi, taflenni, CDs, fideo a DVD, cyflwyniadau parod, bwletin syniadau rhieni, gwefan a deunydd marchnata o bob math.

Mae yna 21 o Swyddogion Maes yn gweithio ar hyd a lled y wlad o Gaergybi i Gaerdydd ac o Benarlâg i Benfro. Mae 4 o'r Swyddogion Maes hefyd yn Gydlynwyr Tîm ar gyfer eu rhanbarth. Maen nhw'n cynnig cefnogaeth a chyngor i Swyddogion Maes lleol.

Ar ôl dechrau ar y gwaith fe fydd yna raglen sefydlu (*induction*) lawn i sicrhau fod swyddog newydd yn gyfforddus â'r gwaith.

Dyletswyddau

Prif ddyletswyddau'r swydd yw:

- Ymweld â bydwragedd ac ymwelwyr iechyd deirgwaith y flwyddyn i'w hannog i rannu neges Twf trwy drafod a dosbarthu deunyddiau i'r rhieni.
- Sicrhau trefn o ymweld yn gyson â'r clinigau yn yr ardal er mwyn sgwrsio gyda rhieni yn yr ystafell aros, gan deilwra'r neges ar gyfer yr unigolyn.
- Cynnal cyflwyniad byr i grŵp o rieni mewn sesiwn crefft rhieni (ante-natal) a sesiwn ôl-eni (post natal).
- Cynnal grwpiau cefnogi i rieni dan faner 'Amser Twf'.
- Cysylltu ag unedau mamolaeth er mwyn cynnal cyswllt gyda'r gweithwyr iechyd – os yn berthnasol.
- Cyflenwi unedau sgan yr ysbytai gyda deunyddiau Twf – os yn berthnasol.
- Cydweithio â phartneriaid cymunedol a manteisio ar gyfleoedd i greu partneriaethau blaengar o fewn cymunedau lleol.
- Cydweithio ar agweddau cenedlaethol y cynllun, e.e. Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd, Sioe Frenhinol Cymru.
- Cysylltu â sefydliadau a grwpiau eraill yn lleol er mwyn hyrwyddo'r cynllun, e.e. meddygfeydd, llyfrgelloedd, Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ac ati.
- Dosbarthu llenyddiaeth y prosiect i fannau amlwg o fewn y gwasanaeth iechyd a mannau cyhoeddus eraill e.e.. deintyddfa, meddygfa
- Sicrhau cyswllt cyson gyda gohebwyr papurau newydd a throsglwyddo'r datganiadau i'r wasg a baratoir yn ganolog iddynt.
- Cydweithio â swyddogion eraill yn yr ardal i hwyluso gweithgareddau'r prosiect.
- Cyflawni tasgau rhesymol eraill o dro i dro i hyrwyddo Twf wrth i'r prosiect ddatblygu.
- Cadw cofnod manwl o'r gwaith a chyflwyno adroddiad misol cryno.

Proffil y Swyddog

Ystyrir y meini prawf canlynol yn hanfodol (yn ddymunol) ar gyfer y swydd uchod:

Cymwysterau:

- addysg uwchradd da
- cymhwyster proffesiynol mewn maes cysylltiol (yn ddymunol)

Sgiliau:

- medru siarad Cymraeg a Saesneg yn rhugl,
- sgiliau rhyngbersonol da,
- sgiliau cyflwyno (yn ddymunol),
- y gallu i weithio a threfnu gwaith yn annibynnol,
- defnydd car a thrwydded yrru lân.

Gwybodaeth:

- adnabyddiaeth leol
- gwybodaeth gyffredinol am gyrff sy'n hyrwyddo'r Gymraeg
- gwybodaeth gyffredinol am waith bydwragedd ac ymwelwyr iechyd (yn ddymunol)

Agweddau:

- brwdfrydedd dros hyrwyddo'r Gymraeg,
- ymlyniad at egwyddorion cyfle cyfartal,
- y gallu i gydweithio'n effeithiol fel rhan o dîm.

Profiad

- profiad o waith datblygu ar lefel leol neu ranbarthol (yn ddymunol),
- profiad o ddarparu hyfforddiant galwedigaethol (yn ddymunol)
- profiad o weithio yn y sector iechyd (yn ddymunol), neu faes perthnasol arall
- profiad o hyrwyddo'r Gymraeg o fewn sefydliadau neu yn y gymuned (yn ddymunol).

Noder: **y cymhwyster mwyaf ar gyfer y swydd yw brwdfrydedd dros y Gymraeg a'r gallu i gyflwyno negeseuon y cynllun yn ddeniadol a difygythiad i bobl o bob math a chefndir.**

Ceisiadau

Gwahoddir ceisiadau ar gyfer y swydd hon trwy ddychwelyd y ffurflen gais amgaeedig a chynnwys llythyr cais byr (dim mwy nag un ochr A4). Dylai'r llythyr cais amlinellu:

- eich rhesymau dros geisio am y swydd
- sut y credwch eich bod yn addas ar gyfer y swydd, ac
- unrhyw wybodaeth berthnasol arall y teimlwch y gallai fod o fantais i chi yn eich cais.

Dylech ddychwelyd yr uchod at: **Y Prif Weithredwr, IAITH Cyf., Parc Busnes Aberarad, Castell Newydd Emlyn, Sir Gaerfyrddin, SA38 9DB**. Mae croeso i chi ffonio am fwy o wybodaeth ar 01239 711668.

Dyddiad cau: **10.00a.m., dydd Gwener, 3 Chwefror 2012.**